CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
10 Ionawr 2024
AM 7.00 TRWY ZOOM

YN BRESENNOL: Cyng I Roberts, P Roberts, E L Shui-Nicholson, C Thomas, R G Parry, S Jones, H N Evans, D Fowlie (Cyngor Sir), G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng G Parry, H Owens	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts. Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 08.11.23 fel cofnodion cywir. Cyng P Roberts yn cynnig a Cyng R G Parry yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	Maes Chwarae CCTV – Mae'r Cadeirydd a'r Clerc wedi cyfarfod pennaeth yr ysgol. Bydd yn cysylltu â'r Cyngor Sir ynglŷn â chaniatâd i'r cyngor cymuned gysylltu â'u system CCTV. Bydd hi wedyn yn galw cyfarfod arall.
4.2	Bin Lon ty Hen - Nid yw'r Clerc wedi clywed dim pellach gan Humphreys Waste ynglŷn â gwagio'r bin. Bydd yn anfon nodyn atgoffa atynt.
4.3	HHP/2023/223 Tyn Ffynnon, Engedi - Mae'r Cynghorydd H N Evans wedi trafod y cais hwn gyda'r Adran Gynllunio. Mae'r fynedfa i'r eiddo wedi bod yno ers blynyddoedd lawer. Nid oes cais i'w symud. Mae'r anecs arfaethedig yn fach a byddai'n cael ei ganiatáu o dan "permitted development". Bydd yn cael ei ddefnyddio gan deulu a ffrindiau. Felly penderfynodd yr aelodau beidio â gwrthwynebu'r cais.
5	**ADRODDIAD y CADEIRYDD** – Awgrymodd y Cadeirydd y dylid cynnal Diwrnod Agored ar y cae chwarae a gofynnodd i hwn gael ei roi ar yr agenda nesaf. Diolchodd hefyd i'r Cyng C Thomas am gasglu sbwriel ar y cae chwarae.
	Llofnod…….Cadeirydd 10.04.24

6	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Cynllunio
6.1	HHP/2023/264 Cais llawn i addasu ac ehangu yn cynnwys dymchwel yr ystafell haul bresennol a codi estyniad deulawr newydd yn Tyn Pwll, Bryngwran – dim sylwadau
6.2	FPL/2023/345 Cais llawn ar gyfer gosod Pwmp Gwres Ffynhonnell Awyr Monobloc yn annibynnol yn 2 Groeslon, Bryngwran – dim sylwadau
6.3	FPL/2023/336 Cais llawn i greu mynedfa amaethyddol newydd ar dir ger Hen-dy, Ty Croes – dim sylwadau
6.4	VAR/2023/71 Cais o dan Adran 73 ar gyfer amrywio amod (02) (Cynlluniau wedi eu cymeradwyo) o ganiatad cynllunio cyfeirnod (FPL/2022/251) (codi ty fforddiadwy mwy yn lle'r ty fforddiadwy a gymeradwywyd ar y safle er mwyn caniatau cynlluniau diwygiedig yn Lon Ty Hen, Bryngwran – dim sylwadau
	Adran Tai
6.5	Cronfa Gwella'r Amgylchedd a Chymuned 2024. Mae'r cyllid grant hwn ar gael i denantiaid wneud ceisiadau fel grwpiau gyda chymorth eu Cynghorwyr Sir. Awgrymodd y Cyng D Fowlie wneud cais am grant ar gyfer croesfan sebra yn Salem St. Bydd yn trafod hyn gyda'r Cyngor Sir.
7	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
7.1	Unllais Cymru Webinar - Atgoffodd y Cadeirydd bawb y bydd Unllais Cymru yn cynnal gweminar ar 25 Ionawr ynghylch Teithiau hunan-dywys rhyngweithiol ar gyfer pentrefi, trefi a chymunedau.
7.2	Un Llais Cymru – Gofynnwyd i'r Cyngor Cymuned hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael gyda Chostau Byw a chynnwys hyn yn y gyllideb flynyddol. Bydd y Clerc yn paratoi gwybodaeth i'w rhoi ar wefan y cyngor.
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Y Gofeb (llechi) - Mae angen atgyweirio neu amnewid rhai o'r llechi. Hefyd, mae angen tacluso rhai o'r enwau ar y gofeb. Bydd y Cadeirydd yn gofyn i Mr Brian Jones wneud y gwaith pan fydd Mr Jones yn teimlo'n well.
8.2	Llwybr Eglwys Llanbeulan - Cytunwyd bod yn rhaid i'r contractwr glaswellt hysbysu'r Clerc bob tro y bydd toriad yn digwydd. Mae hyn yn cyfeirio at bob safle o dan y contract
8.3	Gor-yrru Engedi - Cytunwyd i adael y mater hwn nes bod rheoliadau pellach yn cael eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru yn y gwanwyn.
	Llofnod…….Cadeirydd 10.04.24

8.4	Adolygu Cynllun Hyfforddi – Mae'r Clerc yn anfon gwybodaeth am yr hyfforddiant sydd ar gael gan Un Llais Cymru i aelodau yn fisol. Atgoffwyd yr aelodau i gyflwyno ceisiadau trwy'r Clerc.
9	**MATERION ARIANNOL**
9.1	Derbyniodd yr aelodau yr adolygiad cyfnodol (Ionawr i Fawrth 2024) a'r adroddiad cyllideb a baratowyd ar gyfer 2024-2025. Cytunwyd i beidio â chynyddu'r praesept ar gyfer 2024-2025.
	Cytunwyd i dalu'r canlynol:
9.2	Anglesey Computer Solutions £188.00 (gwefan 2024)
9.3	Anglesey Groundcare Services £1032.00 (mynwent Salem)
9.4	G Owen £143.88 (Zoom)
9.5	R Williams £2623.00 (torri gwair)
9.6	Wales Audit £250.00 (2020-2021)
10	**MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF**
10.1	Diwrnod Agored maes chwarae
10.2	Cysegru y fynwent
10.3	Drainage maes Chwarae/cae peldroed
10.4	Neuadd yr Eglwys
	Llofnod…….Cadeirydd 10.04.24